**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

**Committee on Standards of Conduct**

Dafydd Elis-Thomas AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

18 Mehefin 2010

Annwyl Lywydd

**Argymhelliad 15 adroddiad 'Yn Gywir i Gymru'**

Roeddwn yn ddiolchgar i chi am roi o'ch amser wythnos ddiwethaf i drafod safbwyntiau'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad o ran sut y gellid gweithredu'r argymhelliad hwn gan y Panel Adolygu Annibynnol. Roedd hyn yn ymateb i'ch llythyr a anfonwyd i mi ar 2 Chwefror. Gwnaethom gytuno y gallwn ysgrifennu atoch yn nodi casgliadau'r Pwyllgor er mwyn iddynt gael eu hystyried wrth baratoi'r adolygiad o'r Rheolau Sefydlog.

Roedd yr Aelodau'n deall y materion wrth wraidd argymhelliad y panel ond roeddent yn pryderu, er ei bod yn ymddangos i fod yn argymhelliad gymharol syml ar yr wyneb, bod nifer o beryglon ymarferol posibl i'w hosgoi.

Pwysleisiodd yr Aelodau bod angen i unrhyw newidiadau i'r Rheolau Sefydlog fod yn sensitif i amgylchiadau amrywiol yr Aelodau a'r gwahaniaethau o ran y galwadau sydd ganddynt ar eu hamser. Heblaw

am eu gwaith fel Aelodau'r Cynulliad, nid oes llawer o waith arall gan rai Aelodau, os o gwbl, ac felly dylai fod yn gymharol hawdd iddynt ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n fwy cymhleth i Aelodau eraill.

Er enghraifft, os bydd Aelod yn cysylltu â phobl eraill drwy swydd wahanol, fel ffermwr, gallai fod yn anodd dyrannu amser yn fanwl rhwng y ddwy rôl.

Gallai problem debyg godi os yw ei swydd arall yn golygu treulio llawer o amser yn ciniawa neu'n mynd i ddigwyddiadau 'cymdeithasol'.

Roedd hefyd yn bwysig sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn glir yr eithrir gweithgareddau di-dâl, fel gwaith gwirfoddol neu wasanaethu fel llywodraethwr ysgol.

O ganlyniad i'r ansicrwydd hwn, roedd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn gadarn o'r farn mai'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r mater hwn oedd drwy Reol Sefydlog ar wahân, yn hytrach na drwy ymestyn Rheol Sefydlog 31, er mwyn sicrhau na fyddai Aelod yn cyflawni trosedd yn ddiarwybod.

Yn gywir

**Jeff Cuthbert AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**